Ar ôl effaith pandemig Covid-19, penderfynodd Llywodraeth Cymru na fydd arholiadau Haf 2021 yn cael eu cynnal yn ôl y bwriad.

Sefydlwyd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni sydd wedi cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru i wneud newidiadau i'w reoliadau ar gyfer cymwysterau, a CBAC i roi dull teg o raddio ar waith yr haf hwn.

Ar ôl trafodaethau, penderfynwyd y bydd eich athrawon yn pennu eich graddau (Graddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan), yn seiliedig ar amrywiaeth eang o dystiolaeth.

Noder, mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i'r cymwysterau canlynol gan CBAC sydd wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru:

- Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch CBAC
- Tystysgrifau Her Sgiliau
- Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216)

Roedd y wybodaeth hon yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi: 06 Gorffennaf 2021.

Am y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i: www.cbac.co.uk/Haf2021

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

Bydd eich athrawon yn defnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pa radd ddylid ei rhoi i chi ac yna bydd yn cael ei hadolygu gan eich ysgol/coleg yn rhan o'u proses wirio ansawdd fewnol cyn cyflwyno eich gradd wedi'i phennu gan y ganolfan i CBAC. Byddwch yn cael eich asesu ar yr hyn a addysgir yn unig a bydd eich athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i wneud eu penderfyniadau graddio. Gall athrawon eich asesu ar sail:

- Asesiad di-arholiad (NEA), y cyfeirir ato'n aml fel gwaith cwrs neu asesiad mewnol, hyd yn oed os nad ydych wedi'i gwblhau'n llawn.
- Gwaith dilys a gynhyrchwyd gennych mewn tasgau a osodwyd gan eich ysgol neu goleg. Gallai hyn gynnwys gwaith dosbarth sylweddol, gwaith cartref, profion mewnol, neu ffug arholiadau.
- Mae ysgolion a cholegau'n gosod aseiniadau a allai gael eu datblygu'n gyfan gwbl gan eich athrawon neu wedi'u seilio'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar ddeunyddiau asesu a ddarparwyd gan CBAC.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r asesiadau hyn fel arholiadau ffurfiol a gynhelir mewn blwyddyn arferol. Maen nhw'n fwy hyblyg, yn seiliedig ar y cynnwys a addysgwyd i chi yn unig. Maen nhw'n debygol o fod yn asesiadau byr sy'n canolbwyntio ar themâu/testunau penodol sy'n addas ar gyfer eich rhaglen ddysgu chi.

Nid oes angen i'ch athrawon eich asesu ar bob agwedd ar bob pwnc. Dim ond amrywiaeth o dystiolaeth sy'n dangos eich cyflawniad ar agweddau digonol o gynnwys a addysgwyd i chi y mae eu hangen arnynt.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr amrywiaeth o dystiolaeth y bydd eich athrawon yn eu defnyddio i lywio eich gradd yn gyson ar draws eich dosbarth neu grŵp blwyddyn ar gyfer bob cymhwyster. Fodd bynnag, gall eich ysgol neu goleg benderfynu y gallai tystiolaeth wahanol fod yn fwy priodol i lywio eich gradd yn deg. Er enghraifft, os ydych chi wedi bod yn absennol am gyfnod sylweddol o amser am resymau meddygol dilys, yn fwy na rhai eraill yn eich dosbarth.

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Bydd eich athrawon yn dweud wrthych pa ddarnau o waith fydd yn cael eu defnyddio i lywio eich gradd gyffredinol ar gyfer pob pwnc. Er enghraifft, os ydyn nhw'n casglu tystiolaeth o asesiadau ystafell ddosbarth, maen nhw'n fwy tebygol o roi amserlen asesu i chi.

Cewch gyfle i ddweud wrth staff yn eich ysgol neu goleg, os ydych chi'n credu bod amgylchiadau personol, fel salwch, wedi effeithio ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd.

## Sut y caiff y dystiolaeth ei defnyddio?

Ni fydd un darn o dystiolaeth o reidrwydd yn bwysicach nag un arall. Bydd athrawon yn defnyddio'u barn broffesiynol i'ch asesu chi yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth sy'n rhoi darlun cyffredinol gorau o'ch perfformiad.

Mae Cymwysterau Cymru wedi darparu amrywiaeth o wybodaeth i ddysgwyr ac wedi creu crynodeb o'r ffeithiau allweddol ar gyfer 2021 i ysgolion a cholegau.

## Gwneud penderfyniadau graddio

Unwaith y bydd yr holl dystiolaeth wedi'i dewis a'r asesiadau yn gyflawn, bydd athrawon yn ystyried eich tystiolaeth i gyd. Yna, byddan nhw'n defnyddio ein disgrifyddion graddau i ffurfio barn broffesiynol gyfannol am eich gradd gyffredinol i bob cymhwyster rydych chi'n ei astudio. Byddan nhw'n gwneud hyn mewn ffordd wrthrychol – felly, os yw eich perfformiad chi mewn pwnc penodol bob amser ar safon gradd B, dylech chi gael gradd B. Mae gwahaniaeth eleni, nid y marciau sy'n cael eu dyfarnu am bob asesiad sy'n pennu'r graddau.

Eleni, ni fydd ffiniau graddau yn yr haf. Wrth ffurfio barn gyfannol, bydd staff canolfannau yn defnyddio eu barn broffesiynol i gydbwyso amrediad llawn y dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio yn erbyn safon y perfformiad mae'r disgrifyddion graddau yn ei nodi. Mae eich athrawon yn derbyn cyngor ac arweiniad pellach gennym i ddangos safon y gwaith sy'n cael ei ddisgwyl ar gyfer graddau penodol.

Mae'n bwysig dweud, yn debyg iawn i arholiadau mewn blynyddoedd arferol, bydd y graddau a gyhoeddir gan eich ysgol neu goleg yn seiliedig ar yr hyn a gyflawnwyd gennych, yn hytrach na'ch potensial mewn pwnc. Byddan nhw'n gipolwg ar y safon rydych chi'n ei gyflawni yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth ddilys a gynhyrchwyd gennych. Ni ddylai fod yn haws nac yn anoddach i chi ennill gradd eleni yn seiliedig ar eich perfformiad nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i'm hathro neilltuo gradd mewn pwnc?

Ar ôl i athro benderfynu ar eich gradd yn seiliedig ar eu barn broffesiynol, bydd yn cael ei hadolygu gan athrawon eraill yn eich ysgol neu goleg, i sicrhau bod graddau'n cael eu pennu'n gyson â pholisi eich ysgol neu goleg. Bydd CBAC yn gwirio'r polisïau hyn i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni ein gofynion.

## Addasiadau rhesymol, trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Os oes gennych chi anghenion addysgol arbennig, a/neu os ydych chi'n anabl, ac yn gymwys i gael trefniadau mynediad neu addasiadau rhesymol, dylai eich ysgol neu goleg fod wedi sicrhau bod y rhain ar waith pan gynhyrchwyd y dystiolaeth.

Lle y bo'n briodol, os nad oedd addasiadau rhesymol ar waith pan wnaethoch chi gymryd yr asesiad sy'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth, dylai eich athro ystyried hynny wrth lunio barn o ran gradd. Gallai eich ysgol neu goleg hefyd ystyried p'un a ellid defnyddio tystiolaeth arall yn lle hynny.

Os ydych chi'n meddwl bod salwch neu amgylchiadau personol wedi effeithio ar eich perfformiad mewn asesiad, dylech siarad â'ch ysgol neu goleg am hyn cyn gynted â phosibl. Mae'n bwysig eich bod yn tynnu sylw at unrhyw achosion o'r fath cyn i'ch ysgol neu goleg gyflwyno eich gradd. Ni fydd ceisiadau am ystyriaeth arbennig yn berthnasol yn yr un ffordd eleni gan na fydd myfyrwyr yn sefyll eu harholiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut bydd eich amgylchiadau personol yn cael eu hystyried neu os ydych chi am dynnu sylw at unrhyw beth gyda'ch ysgol neu goleg, nawr yw'r amser gorau i siarad â nhw. Ni ddylech aros tan ar ôl i chi gael eich canlyniadau.

## Ymgeiswyr Preifat

Mae Cymwysterau Cymru wedi creu canllawiau ar gyfer graddio ymgeiswyr preifat yr haf hwn:

Canllawiau i ymgeiswyr preifat

Mae dau lwybr ar gyfer graddio ymgeiswyr preifat eleni:

**1: Llwybr a asesir gan y Ganolfan**
Lle mae gan ymgeiswyr preifat berthynas sefydledig ag ysgol/coleg sydd eisoes wedi cytuno i'w cofrestru nhw ar gyfer cymhwyster ac i gynnal yr asesiad angenrheidiol o'r gwaith, gallai'r trefniadau hyn barhau yn ôl y bwriad.

**2: Llwybr a gynhelir gan y Ganolfan**
Ar gyfer ymgeiswyr preifat nad oes ganddyn nhw berthynas sefydledig ag ysgol/coleg, mae Cymwysterau Cymru yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ganfod ysgolion/colegau sy'n fodlon derbyn ymgeiswyr preifat ar draws Cymru.

## Pa bryd bydda i'n derbyn fy ngraddau a beth sy'n digwydd nesaf?

- Bydd myfyrwyr UG a Safon Uwch yn derbyn eu canlyniadau ddydd Mawrth 10 Awst 2021.
- Bydd myfyrwyr TGAU yn derbyn eu canlyniadau ddydd Iau 12 Awst 2021.

Penderfyniad eich ysgol neu goleg fydd y trefniadau ar gyfer pryd a ble i gasglu eich canlyniadau, a byddan nhw'n rhoi manylion i chi maes o law. Bydd eu cynlluniau'n ystyried unrhyw fesurau Covid ac ymbellhau cymdeithasol sy'n parhau ym mis Awst.

## Apeliadau

Mae pawb yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael gradd ddilys yr haf hwn. Ond, mae gennych chi'r hawl i apelio os ydych chi'n credu bod gwall wedi cael ei wneud.

### Sut bydd y broses apeliadau yn gweithio eleni?

3 cham sydd i'r broses yn ymwneud ag apeliadau eleni. Noder, ni fydd angen i chi fynd drwy bob cam os bydd y gwall wedi'i ddatrys yn ystod un o'r camau cyntaf:

- Cam 1 – Adolygiad Canolfannau: Byddwch chi'n derbyn eich Gradd wedi'i Phennu gan Ganolfannau dros dro gan eich ysgol neu goleg erbyn 30 Mehefin. Os ydych chi'n credu bod gwall wedi bod, gallwch chi ofyn i'ch ysgol neu goleg gwblhau adolygiad canolfannau. Mwy o wybodaeth yma

- Cam 2 – Apêl i CBAC: Os ydych chi'n credu o hyd nad yw'r gwall wedi'i ddatrys yn ystod Cam 1, yna gallwch chi ofyn i'ch ysgol neu goleg gyflwyno apêl i ni. Mwy o wybodaeth yma

- Cam 3 – Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau Os ydych chi'n credu o hyd nad yw'r gwall wedi'i ddatrys yn ystod Cam 2, yna gallwch chi ofyn i Cymwysterau Cymru gynnal adolygiad i benderfynu a wnaethon ni ddilyn y gweithdrefnau cywir. Mwy o wybodaeth yma

Rhaid cwblhau pob cam cyn mynd ymlaen i'r cam nesaf.

Cofiwch, rhaid i chi roi eich caniatâd wrth ofyn am apêl gan y gall eich gradd(au) fynd i fyny, mynd i lawr neu aros yr un peth.

### Sut mae'r broses apeliadau yn wahanol eleni?

Barn broffesiynol eich ysgol neu goleg sy'n pennu eich graddau eleni. Mae'r drefn hon yn wahanol iawn i sut mae'r system arholiadau yn gweithio fel arfer. System sy'n seiliedig ar raddau ydy hon, nid system sy'n seiliedig ar farciau. Mae'r broses apeliadau yn wahanol hefyd. Isod, fe welwch chi ffeithlun sy'n amlinellu'r dulliau gwahanol, ar lefel uchel.

| Cyfres arholiadau safonol | Cyfres Haf 2021 |
|---|---|
| CBAC yn marcio eich papurau arholiad. | Eich canolfan yn marcio eich tystiolaeth asesu. |
| CBAC yn gosod y safon ar gyfer graddio a ffiniau graddau. | Bydd eich ysgol neu goleg yn pennu eich gradd yn seiliedig ar ddewis o dystiolaeth i adlewyrchu eich perfformiad yn gyffredinol. |
| Gall eich ysgol neu goleg ofyn am adolygiad o'r marcio i gywiro gwall. Gall hynny olygu bod eich gradd yn mynd i fyny, i lawr, neu'n aros yr un peth. | Os ydych chi'n credu bod gwall wedi'i wneud a fydd yn effeithio ar eich gradd gyffredinol, gallwch chi ofyn am adolygiad canolfannau ac yna, os bydd angen, gallwch chi ofyn am apêl i CBAC. |
| | Yn dilyn adolygiad ac/neu apêl, gall eich gradd fynd i fyny, neu i lawr, neu aros yr un peth. |

### Oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi?

Mae mwy o wybodaeth i'w chael ar wefan Cymwysterau Cymru yn ei ganllawiau i ddysgwyr arhieni ymarhieni yma. Edrychwch ar yr adran uchod i gael gwybod mwy am 'drefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig'.

## Beth fydd yn digwydd a phryd?

Mawrth/Ebrill: Mae eich ysgol neu goleg yn rhannu gwybodaeth â chi am sut bydd eich gradd yn cael ei dyfarnu, gan gynnwys yr amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddir.

Mehefin: Bydd eich ysgol neu goleg yn rhannu graddau dros dro â chi ar gyfer bob pwnc.

Mehefin/Gorffennaf: Bydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno'ch graddau i CBAC.

Awst:
- 10 Awst – Diwrnod Canlyniadau Safon UG/Uwch
- 10 Awst– 17 Medi – Cyfnod apeliadau Safon UG/Uwch
- 12 Awst– Diwrnod Canlyniadau TGAU
- 24 Awst – 21 Medi – Cyfnod apeliadau TGAU (dros dro)

## Y newyddion diweddaraf

Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod anodd i fyfyrwyr. I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, rydym yn diweddaru ein tudalen we i fyfyrwyr yn rheolaidd: https://www.cbac.co.uk/home/cefnogaeth-i-fyfyrwyr/

Gallwch hefyd ddilyn ein cyfrif Instagram - @cbacifyfyrwyr - am yr holl wybodaeth ddiweddaraf.

## Parhau i ddysgu

Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ganolbwyntio ar eich astudiaethau ac yn parhau i ddysgu. Mae llu o adnoddau dysgu RHAD AC AM DDIM i'ch helpu yma:

- BBC Bitesize
- CBAC Adnoddau
- Hwb